O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 120

Rheoliadau Cregyn Bylchog (Diwygio Meintiau Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf) (Cymru) 2026

Gwnaed	*1 Hydref 2026*
Yn dod i rym	*1 Tachwedd 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 120

The Scallop (Amendment of Minimum Conservation Reference Sizes) (Wales) Regulations 2026

Made	*1 October 2026*
Coming into force	*1 November 2026*

£8.90

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 120

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

Rheoliadau Cregyn Bylchog (Diwygio Meintiau Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth pysgodfeydd môr sy'n ymwneud â'r meintiau cyfeirio cadwraethol lleiaf ar gyfer cregyn y brenin a chwiniaid sy'n gymwys o fewn parth Cymru.

Mae rheoliad 2 yn gwneud mân ddiwygiadau i Reoliad (EU) 2019/1241 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gadwraeth adnoddau pysgodfeydd a diogelu ecosystemau'r môr drwy fesurau technegol (EUR 2019/1241). Mae'n diwygio'r maint cyfeirio cadwraethol lleiaf ar gyfer cregyn y brenin (*Pecten maximus*) i gymhwyso maint cyfeirio cadwraethol lleiaf cyson o 110mm ledled parth Cymru. Mae hefyd yn cynyddu'r maint cyfeirio cadwraethol lleiaf ar gyfer cwiniaid (*Chlamys* spp. (*Aequipecten opercularis* yn flaenorol)) ym mharth Cymru o 40mm i 55mm.

Mae rheoliad 3 yn gwneud diwygiad canlyniadol i is-ddeddf 19 o Is-ddeddfau cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru i wneud y maint lleiaf penodedig ar gyfer cwiniaid o dan yr is-ddeddfau hynny yn gyson â Rheoliad (EU) 2019/1241 (fel y diwygir yr offeryn hwnnw gan y Rheoliadau hyn).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, yr Is-adran Pysgodfeydd, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

2026 Rhif 120

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

Rheoliadau Cregyn Bylchog (Diwygio Meintiau Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf) (Cymru) 2026

Gwnaed	*1 Hydref 2026*
Yn dod i rym	*1 Tachwedd 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan Erthyglau 15(2) a 29(8) o Reoliad (EU) 2019/1241 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gadwraeth adnoddau pysgodfeydd a diogelu ecosystemau'r môr drwy fesurau technegol(**1**), sydd bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn gweithredu yn rhinwedd gweinyddiaeth pysgodfeydd(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag Erthygl 15(2) o Reoliad (EU) 2019/1241, mae Gweinidogion Cymru wedi cael tystiolaeth wyddonol i gefnogi'r mesurau a wneir gan y Rheoliadau hyn.

Yn unol ag Erthygl 15(2C) o Reoliad (EU) 2019/1241, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r cyrff neu'r personau hynny y mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli'r buddiannau y mae'n debygol y bydd y Rheoliadau hyn yn effeithio arnynt yn sylweddol, a'r cyrff neu'r personau eraill hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cregyn Bylchog (Diwygio Meintiau Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf) (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Tachwedd 2026.

(**1**) EUR 2019/1241, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/1312, 2021/1429, 2023/1054, 2024/439, 2024/1028, 2025/82 a chan baragraff 11 o Atodlen 11 i Ddeddf Pysgodfeydd 2020 (p. 22). Daeth O.S. 2019/1312 i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn rhinwedd paragraff 1(1) o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) ac fe'i diwygiwyd cyn iddo ddod i rym gan O.S. 2020/1542.

(**2**) Mae'r pwerau bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru o ran parth Cymru. Gweler Erthygl 1(1), (2), (4) a (9) o Reoliad (EU) Rhif 1380/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin am y diffiniad o "a fisheries administration" a darpariaethau cysylltiedig ynghylch dehongli pŵer sy'n arferadwy gan weinyddiaeth pysgodfeydd o fewn awdurdodaeth Gweinidogion Cymru.

Diwygio Rheoliad (EU) 2019/1241 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gadwraeth adnoddau pysgodfeydd a diogelu ecosystemau'r môr drwy fesurau technegol

2.—(1) Mae Rheoliad (EU) 2019/1241 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gadwraeth adnoddau pysgodfeydd a diogelu ecosystemau'r môr drwy fesurau technegol wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Anecs 6 (dyfroedd gogledd-orllewinol), yn Rhan A (meintiau cyfeirio cadwraethol lleiaf), yn y tabl—

(a) yn y cofnod sy'n ymwneud â "Queen scallop (*Chlamys* spp.)", yn yr ail golofn, ar ôl "40 mm" mewnosoder "(in the Welsh zone, a minimum conservation reference size of 55mm applies)";

(b) yn y cofnod sy'n ymwneud â "Scallop (*Pecten maximus*)", yn yr ail golofn, ar ôl "100 mm" mewnosoder "(in the Welsh zone, a minimum conservation reference size of 110mm applies)".

Diwygio Is-ddeddfau cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru

3. Yn Is-ddeddfau(**3**) cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru, yn is-ddeddf 19 (meintiau pysgod penodedig), ym mharagraff 3, yn y tabl, yn y cofnod sy'n ymwneud â "Queen Scallop (Aequipecten opercularis)", yn yr ail golofn (maint), yn lle "40*" rhodder "55*".

Llyr Gruffydd
Y Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd, un o Weinidogion Cymru
1 Hydref 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

(**3**) Ers 1 Ebrill 2010, mae Is-ddeddfau cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru wedi cael effaith fel pe baent wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru mewn offeryn statudol o ran yr un ardal o Gymru â'r ardal yr oedd yr is-ddeddf honno'n gymwys iddi yn wreiddiol yn rhinwedd erthygl 13(3) o Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol ac Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/630 (C. 42)) ac Atodlen 4 iddo. Mae offerynnau diwygio ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 120

SEA FISHERIES, WALES

The Scallop (Amendment of Minimum Conservation Reference Sizes) (Wales) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend sea fisheries legislation concerning the minimum conservation reference sizes for king scallop and queen scallop that apply within the Welsh zone.

Regulation 2 makes minor amendments to Regulation (EU) 2019/1241 of the European Parliament and of the Council on the conservation of fisheries resources and the protection of marine ecosystems through technical measures (EUR 2019/1241). It amends the minimum conservation reference size for king scallop (*Pecten maximus*) to apply a consistent minimum conservation reference size of 110mm throughout the Welsh zone. It also increases the minimum conservation reference size for queen scallop (*Chlamys* spp. (formerly *Aequipecten opercularis*)) in the Welsh zone from 40mm to 55mm.

Regulation 3 makes a consequential amendment to byelaw 19 of the Byelaws of the former North Western and North Wales Sea Fisheries Committee to bring the specified minimum size for queen scallop under those byelaws into line with Regulation (EU) 2019/1241 (as that instrument is amended by these Regulations).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Fisheries Division, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2026 No. 120

SEA FISHERIES, WALES

The Scallop (Amendment of Minimum Conservation Reference Sizes) (Wales) Regulations 2026

Made	*1 October 2026*
Coming into force	*1 November 2026*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by Articles 15(2) and 29(8) of Regulation (EU) 2019/1241 of the European Parliament and of the Council on the conservation of fisheries resources and the protection of marine ecosystems through technical measures(**1**), which now vest in the Welsh Ministers acting in the capacity of a fisheries administration(**2**), make the following Regulations.

In accordance with Article 15(2) of Regulation (EU) 2019/1241, the Welsh Ministers have obtained scientific evidence to support the measures made by these Regulations.

In accordance with Article 15(2C) of Regulation (EU) 2019/1241, the Welsh Ministers consulted such bodies or persons as appear to be representative of the interests likely to be substantially affected by these Regulations and such other bodies or persons as the Welsh Ministers consider appropriate.

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Scallop (Amendment of Minimum Conservation Reference Sizes) (Wales) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 1 November 2026.

(**1**) EUR 2019/1241, amended by S.I. 2019/1312, 2021/1429, 2023/1054, 2024/439, 2024/1028, 2025/82 and by paragraph 11 of Schedule 11 to the Fisheries Act 2020 (c. 22). S.I. 2019/1312 came into force immediately before implementation period completion day by virtue of paragraph 1(1) of Schedule 5 to the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020 (c. 1) and was amended before it came into force by S.I. 2020/1542.

(**2**) The powers are now vested in the Welsh Ministers in relation to the Welsh zone. See Article 1(1), (2), (4) and (9) of Regulation (EU) No 1380/2013 of the European Parliament and of the Council on the Common Fisheries Policy for the definition of "a fisheries administration" and associated provisions regarding the interpretation of a power exercisable by a fisheries administration within the jurisdiction of the Welsh Ministers.

Amendment of Regulation (EU) 2019/1241 of the European Parliament and of the Council on the conservation of fisheries resources and the protection of marine ecosystems through technical measures

2.—(1) Regulation (EU) 2019/1241 of the European Parliament and of the Council on the conservation of fisheries resources and the protection of marine ecosystems through technical measures is amended as follows.

(2) In Annex 6 (north western waters), in Part A (minimum conservation reference sizes), in the table—

(a) in the entry relating to "Queen scallop (*Chlamys* spp.)", in the second column, after "40 mm" insert "(in the Welsh zone, a minimum conservation reference size of 55mm applies)";

(b) in the entry relating to "Scallop (*Pecten maximus*)", in the second column, after "100 mm" insert "(in the Welsh zone, a minimum conservation reference size of 110mm applies)".

Amendment of the Byelaws of the former North Western and North Wales Sea Fisheries Committee

3. In the Byelaws(**3**) of the former North Western and North Wales Sea Fisheries Committee, in byelaw 19 (specified fish sizes), in paragraph 3, in the table, in the entry relating to "Queen Scallop (Aequipecten opercularis)", in the second column (size), for "40*" substitute "55*".

Llyr Gruffydd
Cabinet Minister for Rural Resilience and Sustainability, one of the Welsh Ministers
1 October 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

(**3**) Since 1 April 2010, the Byelaws of the former North Western and North Wales Sea Fisheries Committee have had effect as if made by the Welsh Ministers in a statutory instrument in relation to the same area of Wales as the area to which that byelaw originally applied by virtue of article 13(3) of, and Schedule 4 to, the Marine and Coastal Access Act 2009 (Commencement No. 1, Consequential, Transitional and Savings Provisions) (England and Wales) Order 2010 (S.I. 2010/630 (C. 42)). There are amending instruments but none is relevant.

williams lea | tso
An RRD Company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), part of Williams Lea,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839891-5

9 780348 398915